Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol G.G. Bodringallt

**Bryn Terrace**
**Ystrad**
**Pentre**
**RCT**
**CF41 7RX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol G.G. Bodringallt

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Bodringallt |
| Awdurdod lleol | Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 134 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 89 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 33 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 28% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd ag angenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion sydd ag angenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 33.7% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 31.5% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi, 2014 |
| Dyddiad yr arolwg Estyn blaenorol (os yn berthnasol) | 25-06-2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolwg hwn | 14-03-2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data yma o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai y bydd y ffigurau ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru:
Fy Ysgol Leol (llyw.cymru)

(a) Mae'r termau 'anghenion dysgu ychwanegol' ac 'angenion addysg arbennig' yn cael eu defnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr ADY/AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn dda ac yn darparu arweinyddiaeth strategol gadarn. Mae ei weledigaeth, sydd wedi'i seilio ar gefnogi lles disgyblion a'u cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau, yn treiddio trwy holl fywyd yr ysgol. Mae'r trefniadau monitro a gwerthuso'n cael eu gweithredu'n hynod effeithiol gyda phob partner yn cael llais i adnabod cryfderau a datblygu agweddau penodol i'w gwella. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n fedrus gan dîm gweithgar o staff sy'n darparu cynhaliaeth lles gynhwysol a gweithgareddau dysgu diddorol i ddisgyblion. Mae gan aelodau'r corff llywodraethol adnabyddiaeth gref o'r ysgol ac yn cefnogi'r staff yn effeithiol.

Mae gan athrawon a chynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion, ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n adeiladol. Maent yn darparu cefnogaeth lles effeithiol i ddisgyblion, er enghraifft yn ystod sesiynau 'Llun Lles', sy'n cael effaith gadarnhaol gan sbarduno disgyblion i ymroi'n llawn i'w dysgu. At ei gilydd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a digidol yn gyson ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu bob tro.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw'r gefnogaeth ddiflino a ddarperir i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, sydd yn ei dro'n dwysáu eu balchder o'u hysgol a'r gymuned yn ehangach. Mae'r ddarpariaeth yn cymell disgyblion i siarad Cymraeg yn ddigymell wrth eu cefnogi mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon.

Mae ymddygiad ac agweddau'r disgyblion at ddysgu yn gryfder. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn ymroi'n llwyr i'w dysgu. Maent yn cydweithio'n ddiwyd ar dasgau ac yn ymateb yn effeithiol i ddisgwyliadau uchel staff. Er gwaethaf y pandemig, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd cyson yn eu medrau, gan gynnwys eu medrau Cymraeg.

## Argymhellion

A1 Ehangu'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm

A2 Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu'n gynyddol annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod cyfnod y disgyblion yn yr ysgol, gwna llawer ohonynt gynnydd cryf yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Maent yn dwysáu eu dealltwriaeth ac yn caffael gwybodaeth yn fedrus mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Un o gryfderau'r ysgol yw bod y disgyblion yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando'n llwyddiannus, gan ymateb yn fedrus i gyflwyniadau, er enghraifft wrth i oedolion ddarparu cyfarwyddiadau iddynt greu sgôr graffig wrth gyfansoddi cerddoriaeth greadigol. Er gwaethaf amser a gollwyd yn ystod y pandemig, mae disgwyliadau uchel oedolion o fedrau siarad Cymraeg disgyblion yn gryfder, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i siarad yr iaith yn gynyddol gywir. Mae defnydd cyson oedolion o dechnegau trochi iaith ar draws yr ysgol yn gyfrwng i ddysgwyr ddatblygu eu geirfa a phatrymau cyfarwydd yn fedrus, er enghraifft wrth i ddisgyblion ieuengaf drafod nodweddion deunyddiau wedi'i hailgylchu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn dwyn ffeithiau i gof, er enghraifft am hanes y pyllau glo, ac yn defnyddio iaith addas i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Maent yn deall y gwahaniaeth rhwng nodweddion iaith ffurfiol ac anffurfiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ac yn eu defnyddio'n gynyddol hyfedr wrth drafod llygredd afonydd, gan gyflwyno'r wybodaeth mewn llythyr ffurfiol. Caiff medrau siarad llawer o ddisgyblion eu datblygu'n fwriadus mewn gweithgareddau diddorol, er enghraifft wrth ddefnyddio geirfa benodol fel rhan o arbrawf wyddonol am ynni, gan gymhwyso'r iaith yn fedrus wrth iddynt ddylunio a chreu melinau gwynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau darllen yn gyson yn y ddwy iaith wrth symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am synau llythrennau gan wneud cynnydd yn eu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio dulliau darllen yn fedrus wrth iddynt gywain, dehongli a chyflwyno gwybodaeth ac yn magu hyder i gyflwyno ffeithiau i'w ffrindiau. Wrth i ddisgyblion wella eu medrau darllen, mae llawer yn cyflwyno gwybodaeth yn ystyrlon gan oslefu'n naturiol, er enghraifft wrth iddynt ddarllen gweddi bersonol mewn gwasanaeth ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn mireinio eu medrau darllen uwch ac yn cywain gwybodaeth yn fedrus, er enghraifft wrth gasglu a choladu gwybodaeth am drychfilod. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus wrth ddarllen testun a blaenoriaethu rhinweddau personol wrth iddynt ddwysáu eu dealltwriaeth am bwysigrwydd bod yn egwyddorol gyda ffrindiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn mireinio eu medrau ysgrifennu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus wrth greu cwestiynau byrion i holi plentyn am ardal Ystrad, gan ymarfer eu medrau yn fwriadus ar y wal graffiti yn y dosbarth tu allan. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn rhannu ffeithiau am enwogion Cymru yn effeithiol gan gyflwyno'r wybodaeth mewn amrywiaeth addas o ffurfiau. Maent yn dwysáu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am iaith yn gyson wrth amrywio'r arddull i gyd-fynd gyda gwahanol genres, er enghraifft tra'n ychwanegu ansoddeiriau diddorol wrth ddisgrifio Betty Campell a Shirley

Bassey. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio geirfa ac idiomau diddorol. Mae hyn yn cyfoethogi ac yn cyfnerthu eu medrau'n llwyddiannus wrth iddynt ddysgu sut i ddefnyddio technegau addas mewn cyfleoedd cyson i wella eu gwaith. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig yn briodol ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau mathemateg yn gyson, er enghraifft wrth ddosbarthu odrifau ac eilrifau tra'n chwarae gêm. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dwysáu eu dealltwriaeth o unedau ansafonol a safonol, ac yn cymhwyso eu medrau rhif yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn cymharu unedau mesur yn llwyddiannus ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth gasglu a dadansoddi cronfeydd data wrth gymharu pwysau glo o byllau Lower Dinas, Nyth Bran a Chymer. Maent yn datblygu eu medrau rhif ac yn llunio a dadansoddi graffiau amrywiol yn effeithiol ac yn eu cyflwyno'n gynyddol gywir. Gwnânt hyn yn fedrus trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau ymarferol a digidol.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn gwella'n gyson wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o raglenni cyfathrebu'n hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio teclynnau i gyflwyno sgript, gan werthuso cyfraniadau ei gilydd yn llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau cynhyrchu yn fedrus ac yn defnyddio apiau gwahanol i wella eu medrau wrth iddynt gyflwyno ffeithiau am Gymru. Trwy hyn, maent yn ymgorffori delweddau a sain yn greadigol i gyflwyno'r wybodaeth mewn dull atyniadol i'r gynulleidfa. Mae disgyblion pen uchaf yr ysgol yn gwella eu medrau mewnbynnu data a datblygu eu dealltwriaeth o gyfathrebu digidol trwy amrywiaeth briodol o weithgareddau. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn mesur hyd cysgodion yn ystod amseroedd gwahanol o'r dydd ac yn mewnosod y data i dabl digidol er mwyn ei gyflwyno mewn taenlenni a chronfeydd data amrywiol yn gywir.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ddarpariaeth gynhwysol yr ysgol sy'n rhan annatod o weledigaeth y pennaeth a'r staff. Mae hyn yn flaenoriaeth ers y pandemig ac yn parhau i gael effaith hynod gadarnhaol ar les bron bob disgybl, er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau 'Llun Lles'. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth am bwysigrwydd gofalu am eu lles meddyliol ac emosiynol wrth iddynt baratoi i ddysgu am weddill yr wythnos.

Trwy'r gwerthoedd a'r moesau cytûn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn cael eu parchu a'u trin yn deg gan oedolion, sy'n cyfrannu'n gadarn at ddatblygu perthynas weithiol sydd wedi'i seilio ar barch ac ymddiriedaeth. Mae disgyblion yn falch bod athrawon yn dathlu eu doniau'n fwriadus yn yr amgylchedd dysgu, er enghraifft ar y murlun Arwyr Bodringallt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch bod oedolion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau, a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr

ysgol. Mae disgyblion sy'n aelodau o'r amrywiol bwyllgorau fel rhan o'r Senedd yn gwneud penderfyniadau sydd hefyd yn gwneud cyfraniad effeithiol . Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor eco a lles yn plannu llysiau a ffrwythau yn yr ardd i'w cynhaeafu a'u defnyddio i goginio. Yn ogystal, maent yn cyflwyno gwybodaeth i'w ffrindiau am bwysigrwydd hylendid wrth goginio a phwysigrwydd cadw'n iach. Trwy waith y cyngor ysgol, er enghraifft wrth hybu diogelwch ar y we, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion am gadw'n ddiogel yn gadarn.

Mae agweddau hynod gadarn at eu dysgu gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ac maent yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol. Maent yn dangos diddordeb a boddhad yn yr hyn maent yn ei ddysgu, fel unigolion ac wrth weithio o fewn eu grwpiau. Mae bron bob disgybl yn cydweithio'n ddiwyd gyda'i ffrindiau ac oedolion, gan gynnig cymorth i'w gilydd o'u gwirfodd. Maent yn canolbwyntio'n gyson am gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth drin a thrafod eu gwaith ac yn barod i wrando ar farn a syniadau eraill. Mae bron bob disgybl yn dangos parch at ei waith, a gwydnwch a chymhelliant yn yr hyn a ddysgir.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd addas a ddarperir ar eu cyfer wrth iddynt ddechrau dylanwadu ar beth a sut maen nhw'n dymuno ei ddysgu. O oedran cynnar, maent yn ymateb yn gyson i'r adborth maent yn ei dderbyn ar lafar gan eu ffrindiau a staff. O ganlyniad, maen nhw'n magu hyder i ymateb a datblygu eu gwaith yn fedrus dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aeddfedu i fod yn unigolion iach a hyderus, ac yn deall sut i wneud dewisiadau cywir mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Mae aelodau'r cyngor iechyd a lles yn hybu bwyta'n iach trwy fonitro cynnwys bocsys bwyd yn gyson ac yn annog disgyblion i wneud dewisiadau iach. Mae bron bob disgybl yn cael boddhad o'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn ystod amser egwyl, sy'n datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr arlwy ddiddorol o glybiau ychwanegol.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn gyson dda yn y dosbarthiadau tu mewn ac allan, ac wrth gyd-chwarae ar y buarth. Maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae ganddynt ddealltwriaeth gyson o egwyddorion a moesau cadarn yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n frwdfrydig mewn gwasanaethau sy'n hyrwyddo rhinweddau pwysig fel eu dealltwriaeth o degwch, cydraddoldeb a chynaliadwyedd. Gwelir hyn yn treiddio'n fwriadus trwy ethos yr ysgol: 'Cariad, Cwrteisi, Cymreictod', gyda'r disgyblion yn falch o fod yn perthyn i deulu'r ysgol.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r profiadau dysgu ar draws yr ysgol yn ysgogi ac yn herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol, ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd cyson o fewn gwersi a thros amser. Mae pob aelod o staff yn darparu gweithgareddau dysgu'n effeithiol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai mwy abl.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei seilio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd cyfoethog ac adeiladol i ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau diddorol yn cefnogi llawer o ddisgyblion i gaffael y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhifedd a digidol, ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd. At ei gilydd, mae mwyafrif y gweithgareddau yn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft trwy'r dull 'Medrau Moethus'. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig a digidol ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig, yn gyffredinol.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn casglu syniadau'r disgyblion gan gynnig 'cwestiynau mawr' o fewn thema benodol. Mae'r disgyblion yn gosod eu cwestiynau ar y 'crochan creu' a'r 'goeden cwestiynau', sy'n darparu cyfleoedd bwriadus iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Yn y dosbarthiadau ar waelod yr ysgol, mae athrawon yn plethu'r holl feysydd dysgu a phrofiadau trwy weithredu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn effeithiol, er enghraifft wrth ddarparu gweithgareddau creadigol a chorfforol yn y dosbarth tu allan. Trwy hyn, maent yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion trwy'r ysgol yn llwyddiannus ac yn eu hannog i ymroi a mwynhau eu dysgu. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ddulliau wrth addysgu medrau llythrennedd a rhifedd yn benodol, ynghyd â darparu cyfleodd i ddisgyblion eu datblygu'n briodol ar draws y cwricwlwm. Enghraifft nodedig o hyn yw bod athrawon wedi defnyddio darganfyddiad sgerbwd crocodeil hynafol ar safle'r ysgol yn ddiweddar fel sbardun unigryw i ystod ddiddorol o weithgareddau dysgu.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac anffurfiol yn gryfder. Mae hyn yn cael effaith galonogol ar ailsefydlu safonau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgybl yn dilyn cyfnod o ddysgu o bell. Yn ogystal, mae staff yn darparu cyfleodd ehangach iddynt ddefnyddio'u medrau Cymraeg mewn amrywiaeth o brofiadau ychwanegol sy'n cynnwys sesiynau gitâr ac iwcalili. Cyfoethogir y ddarpariaeth ymhellach wrth i ddisgyblion fanteisio hefyd ar amrywiaeth o glybiau allgyrsiol, ynghyd â dwysáu eu dysgu wrth fynd ar deithiau addysgol, er enghraifft i'r pentref lleol, i Bontypridd ac i Gaerdydd.

Mae gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru'n datblygu'n effeithiol. Rhoddir blaenoriaeth gyson ar gefnogi lles disgyblion, darparu cyfoeth o brofiadau dysgu ystyrlon sy'n helpu datblygu eu medrau, ac hyrwyddo yr ymdeimlad o berthyn i deulu Bodringallt. Mae staff yn archwilio a myfyrio ar nodweddion y cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleodd dysgu cyfoethog sy'n ymgorffori'r pedwar diben ac yn annog llais y disgybl yn gelfydd mewn cyfres o weithgareddau ar draws y meysydd dysgu o dan y thema 'Dilyn yr afon'. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n effeithiol, ac yn cyfoethogi eu profiadau wrth gyflwyno gweithgareddau datrys problemau a chreadigol. Er enghraifft, maent yn mesur cyflymder gwrthrychau'n teithio ar gerrynt dŵr o gryfder gwahanol mewn afon sydd wedi'i chreu ganddynt. Trwy hyn, mae disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn datblygu eu medrau'n gydlynol.

Mae gan bob aelod o staff berthynas waith hynod gadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn cydweithio fel aelodau effeithiol o dîm ac yn ddarparu ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau allweddol a'u lles emosiynol. Mae'r ardaloedd dysgu atyniadol yn y dosbarthiadau tu mewn a thu allan yn cael eu defnyddio'n fwriadus i annog disgyblion i weithio'n gynhyrchiol achyfoethogi'u profiad

dysgu. Mae lleiafrif yr oedolion yn arwain y gweithgareddau dysgu'n gyson, sydd yn ei dro'n llesteirio gallu disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion yn ddigon effeithiol i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu.

Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn trin pob un â pharch. Maent yn rhannu amcanion clir ar gyfer dysgu ac yn cefnogi'r disgyblion yn effeithiol drwy sicrhau rhediad addas i'r gweithgareddau. Gwnânt ddefnydd cyson o dechnegau dysgu ac adnoddau i ennyn diddordeb a chefnogi disgyblion i gyflawni'n dda, er enghraifft drwy ddarparu recordiad o destun darllen wrth iddynt gywain gwybodaeth am enwogion Cymru. Rhoddir bri ar ddathlu cyflawniadau'r disgyblion wrth ddathlu eu gwaith yn ddeniadol o amgylch yr ysgol, er enghraifft ar furluniau Seren yr Wythnos a Balchder Bodringallt.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addysgu ac asesu gwerthfawr sy'n cynorthwyo llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae adborth llafar staff yn gryfder ac yn helpu llawer o ddisgyblion wybod pa mor dda maent yn ei wneud a sut i wella eu gwaith. Mae athrawon yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol ac yn monitro dysgu disgyblion trwy ddefnydd cyson o gwestiynu treiddgar a chynhaliol. Er enghraifft, mae athrawon yn rhoi amser i ddisgyblion feddwl cyn ymateb ac yn darparu cyfleoedd iddynt drafod eu gwaith gyda phartneriaid. Yn ogystal, darperir cyfleoedd pwrpasol i lawer o ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu ffrindiau trwy'r defnydd o 'Dringo'r (Bodring) Allt'. Mae trefniadau asesu cadarn i fonitro cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion unigol a grwpiau penodol, yn fuddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy'n hyrwyddo ymddygiad da  cwrteisi a pharch ar gyfer pob un disgybl. Mae'r berthynas waith adeiladol a chyfeillgar sydd yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau cadarnhaol bron bob disgybl at fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn hybu'r Gymraeg ac yn ymwreiddio Cymreictod i ddisgyblion yn hynod lwyddiannus. Maent yn ennyn balchder disgyblion at eu hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant trwy weithgareddau diddorol, er enghraifft wrth i ddisgyblion ganu anthem yr ysgol 'Bodringallt Bodringallt', yn frwdfrydig. Mae'r gwasanaethau ysgol yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol grefyddau, a'u datblygiad moesol ac ysbrydol.

Mae staff yn cefnogi lles meddyliol ac emosiynol y disgyblion yn hynod effeithiol yn dilyn cyfnodau clo'r pandemig. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r sesiynau hunan-ddewis sydd yn cynnwys ioga a dysgu iaith dramor yn ystod sesiynau 'Llun Lles'. Yn ogystal, maent yn mwynhau cymryd rhan yn y dull 'nodyn neis' wrth drafod rhinweddau pwysig eu ffrindiau. Mae hyn yn galluogi bron bob disgybl i ddangos parodrwydd i weithio a datblygu perthnasau cadarnhaol o fewn y dosbarth a thu hwnt.

Mae athrawon yn meithrin gwerthoedd cytûn, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd yn llwyddiannus.  Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill fel aelodau o'r ysgol, yn lleol yn y gymuned ac yn

ehangach. Caiff hawliau plant eu hyrwyddo trwy drin a thrafod moesau a gwerthoedd pwysig mewn cyflwyniadau a thrwy negeseuon pwysig ar arddangosfeydd pwrpasol ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn manteisio ar amrywiaeth o gyfleodd i sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu i benderfyniadau sydd yn cael effaith ar ddarpariaeth yr ysgol gyfan. Trwy weithgarwch Senedd yr ysgol, mae disgyblion yn cael dylanwad cadarnhaol ar benderfyniadau pwysig sy'n eu heffeithio, er enghraifft wrth iddynt ddewis a phrynu offer i'w diddanu yn ystod amser egwyl.

Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu'n cefnogi pob disgybl i fanteisio ar y cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu trwy eu hannog i gyfrannu cwestiynau treiddgar o fewn eu themâu. Mae athrawon yn annog pob disgybl i ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at waith yr ysgol a'r gymuned yn ehangach.

Trwy gyfleoedd creadigol cyson yr ysgol, perfformiadau fel Parti Ponti yn lleol a chystadlaethau'r Urdd yn rhanbarthol a chenedlaethol, mae staff yn cefnogi disgyblion i fagu hyder i gymryd rhan mewn amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r cyfleoedd pwysig hyn yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg a mireinio eu medrau creadigol wrth ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth efelychu tai a chreu offer cyntefig fel rhan o'r gwaith ar y Celtiaid.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys rhaglenni cefnogi pwrpasol. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn manteisio'n rhagweithiol ar wasanaethau a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr, sy'n cynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae diwylliant ac ymagweddau cyson gan yr ysgol tuag at ddiogelwch a lles disgyblion ac mae ei threfniadau diogelu'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae arweinwyr ac athrawon yn monitro presenoldeb disgyblion mewn trefniant perthnasol wrth gydweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn hyderus ac yn hyrwyddo gweledigaeth gadarn wrth feithrin cymuned gynhwysol a chyfeillgar sy'n annog pob disgybl i ymroi ac ymgeisio'n dda. Mae'r cyfeiriad strategol bwriadus yn gosod disgwyliadau clir ym mhob agwedd o'r dysgu a'r addysgu, ac yn cefnogi ymroddiad athrawon a chynorthwywyr dysgu i gynnal a chodi safonau. Rhanna'r staff yr uchelgais hon gyda'r disgyblion ac mae hybu gwerthoedd cytûn yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae arwyddair yr ysgol: 'Heb iaith heb ddim' yn treiddio'n fwriadus trwy'r ysgol. Trwy hyn, mae balchder cytûn rhwng y staff a'r disgyblion tuag at y Gymraeg a'u treftadaeth wrth galon yr  amgylchedd dysgu.

Mae arweinwyr yn gweithredu ar drefniadau hynod effeithiol wrth werthuso a datblygu'r ddarpariaeth. Yn sgil effaith y pandemig er enghraifft, mae staff wedi cydnabod bod angen cryfhau lles disgyblion wrth iddynt ddychwelyd yn llawn amser i'r ysgol. Darperir gweithgareddau sy'n diwallu anghenion lles disgyblion yn fwriadus

ar ddyddiau ‘Llun Lles’. Trwy hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu gyda’u dysgu yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae medrau cymdeithasol disgyblion yn datblygu’n gyson ac yn eu cefnogi i gynnal eu diddordeb ac ymrwymiad i’w dysgu.

Mae cyfarfodydd staff bwriadus yn cael eu cynnal i drefnu a gweithredu ar weithgareddau i anelu at gynnydd tuag at flaenoriaethau cytûn. Mae gan bob aelod o’r staff dysgu gyfrifoldeb am faes neu agwedd benodol o waith yr ysgol ac maent yn cyfrannu’n effeithiol tuag at wella safonau a chynnydd disgyblion. Mae’r cynorthwywyr dysgu’n aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac yn cyfrannu’n gyson at wella safonau dysgu, lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i werthuso ansawdd cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion, sydd yn eu tro’n cyfrannu’n effeithiol tuag at welliannau dros amser. Mae’r uwch dim arwain yn defnyddio gwybodaeth berthnasol ynghyd â barn staff, rhieni a llywodraethwyr yn fwriadus i adnabod cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod dilynol, yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gyfrannu at werthuso’r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wedi adnabod bod angen creu amgylchedd mwy deniadol i gymdeithasu yn ystod amser egwyl ac i wneud y dosbarth tu allan yn fwy gwyrdd drwy blannu llysiau a blodau yn ardal Bodringardd.

Mae athrawon yn arddel perthynas gadarn gyda rhieni sydd yn ei thro, yn cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau. Yn ogystal, maent yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda rhieni sy’n meithrin cydweithio effeithiol er lles ac addysg bob disgybl. Mae’r cyfathrebu yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i rieni am gynnydd eu plant ac am weithgareddau dyddiol yr ysgol.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol ddealltwriaeth berthnasol am gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella trwy adroddiadau manwl y pennaeth, ymweliadau rheolaidd â’r dosbarthiadau, craffu ar lyfrau ac ymgymryd â theithiau dysgu. Trwy hyn, mae ganddynt adnabyddiaeth gref o’r materion sydd angen sylw a’r heriau sy’n wynebu’r ysgol. Maen nhw’n cefnogi’r ysgol i reoli a threfnu ei hadnoddau’n effeithiol, sy’n cynnwys y defnydd o’r grant datblygu disgyblion yn dda. Maent yn cydweithio gydag arweinwyr a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ag yfed yn iach.

Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i staff, sy’n cysylltu’n effeithiol gyda deilliannau gweithgareddau gwerthuso a blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r pennaeth yn cefnogi athrawon i gynnal ymchwil ar agwedd o’u hymarferion dosbarth er mwyn adnabod effaith ar gyrhaeddiad disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw bod athrawon wedi datblygu’r dull o’r ‘partneriaid trafod’ ar ddechrau sesiynau i ddatblygu hyder disgyblion i drafod, holi ac i fynegi barn. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn magu hyder i gyfrannu’n fwy rhagweithiol i drafodaethau dosbarth sydd hefyd yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol dros amser.

Trwy amrywiol weithgareddau hyfforddi, mae pob aelod o staff yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddatblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn cymryd rhan mewn cywaith i ddatblygu pecyn gweithgareddau am ddyniaethau yn eu ‘Milltir Sgwâr’, sydd yn ei dro wedi dyfnhau dealltwriaeth disgyblion am nodweddion yr afon leol yn llwyddiannus. Mae’r pennaeth a’r staff yn hyderus i rannu eu harferion o fewn ac ar draws ysgolion eraill yn y clwstwr, yn lleol ac yn rhanbarthol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2022